**CANLLAWIAU TECHNEGOL**

# Map cenedlaethol o'r toiledau a nodwyd mewn strategaethau toiledau lleol

## Y data mapio sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol

## Cefndir

Un o'r ymrwymiadau a wnaed yng nghyswllt strategaethau toiledau lleol, wrth i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fynd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, oedd ymrwymiad i weithio i lunio map toiledau cenedlaethol. Bydd y map yn cael ei lunio o fewn seilwaith mapio presennol Llywodraeth Cymru, drwy'r wefan Lle. Mae'r wefan yn darparu porth-daear a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Lle yn ganolfan ar gyfer data a gwybodaeth sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau, ond sy'n ymdrin â'r amgylchedd yn bennaf. Mae enghreifftiau o'r data a ddangosir ar y mapiau ar-lein yn cynnwys llwybrau dynodedig Teithio Llesol; ardaloedd rheoli ansawdd aer; mapiau sŵn amgylcheddol; ffiniau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol; ardaloedd rhybuddion llifogydd; data arolygu cynefinoedd; ac ystod o wybodaeth amgylcheddol arall.

Bydd y wefan yn creu mapiau o Gymru gyfan ar sail y setiau data a ddarperir gan awdurdodau lleol, y gellir eu ffurfweddu er mwyn canolbwyntio ar y darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data a fydd wedi'i gynnwys ar y map Lle ar gael ar ffurf gwasanaeth data agored a fydd yn hygyrch i bawb. Dyma'r ddolen gyswllt â Lle:

http://lle.gov.wales/home?lang=cy

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ap, oherwydd nid yw llawer o bobl yn gallu defnyddio ffôn clyfar am nifer o resymau. Mae'n fwy priodol canolbwyntio ar sicrhau bod y wybodaeth ar gael ar-lein drwy ystod eang o wefannau a thrwy ddulliau traddodiadol nad ydynt ar-lein. Rydym o'r farn mai datblygwyr proffesiynol yw'r bobl orau i ddatblygu ap, oherwydd byddant yn gallu cael gafael ar y data o'r wefan Lle.

## Gofynion

Pan fydd awdurdodau lleol wedi nodi'r toiledau a fydd yn cael eu hysbysebu fel toiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, bydd yn ofynnol iddynt baratoi set ddata'n unol â manyleb benodol (ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen yn y ddogfen hon) a sicrhau bod y set ddata ar gael ar eu gwefan ar ffurf data agored. Bydd y set ddata'n cynnwys gwybodaeth am leoliad a

nodweddion penodol y toiledau sydd wedi'u nodi gan yr awdurdodau lleol yn eu strategaethau, a bydd y data dan sylw'n cael ei lyncu gan system Llywodraeth Cymru a'i gyfuno â setiau data awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio'r set ddata genedlaethol ar gyfer y map Lle.

Er mwyn i ddata gael ei ystyried yn ddata agored, mae angen iddo fod ar gael dan drwydded agored. Yn y sector cyhoeddus gellir sicrhau hynny drwy gyhoeddi data dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Bydd y data a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gael ar ffurf data agored, felly bydd ar gael i'w ailddefnyddio gan drydydd partïon, naill ai'n uniongyrchol o wefan yr awdurdod lleol ei hun neu drwy'r set ddata gyfun y tu ôl i'r map Lle. Gallai'r trydydd partïon hynny gynnwys gwasanaethau mapiau ar-lein eraill, datblygwyr apiau neu endidau masnachol, a bydd y data hefyd ar gael i'w ailddefnyddio gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Bydd y set ddata ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y cyhoedd yn gallu gweld a chwilio'r data fel y mae'n ymddangos ar y wefan Lle, er mwyn gweld Cymru gyfan neu edrych ar ardaloedd penodol.

Bydd awdurdodau lleol yn gallu creu eu mapiau eu hunain o'r ffrydiau data agored hyn, neu gallant ddewis ffurfweddu'r map cenedlaethol a gyhoeddir ar Lle er mwyn canolbwyntio ar eu hardal eu hunain, gyda'r posibilrwydd o gynnwys y map a ffurfweddwyd yn lleol ar eu gwefan eu hunain. Yn ogystal, gofynnir i awdurdodau lleol ddangos dolen gyswllt â'r map Lle yn ei gyfanrwydd er mwyn cynorthwyo pobl i chwilio'r data ynghylch ardaloedd eraill y gallent fod yn ymweld â nhw.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio annog gwefannau eraill yn y sector cyhoeddus i gysylltu â'r mapiau.

## Sail gyfreithiol

**Mae adran 141 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu'r sail ar gyfer casglu'r data sy'n ofynnol. Mae'r adran dan sylw wedi'i hatgynhyrchu isod:-**

"(*1)[F1The council of a non-metropolitan county] may conduct, or assist in the conducting of, investigations into, and the collection of information relating to, any matters concerning the county or any part of the county and may make, or assist in the making of, arrangements whereby any such information and the results of any such investigation are made available to any other local authority in the county, any government department or the public.*

*(2)The appropriate Minister with respect to any matter may require the council of a county to provide him with any information with respect to that matter which is in the possession of, or available to, that council or any other local authority in the county in consequence of the exercise of any power conferred by or under any enactment; and where such requirement is made in respect of any information which is in the possession of, or available to, any other local authority in the county, but not the county council, the county council may require that other authority to furnish them with that information.*

*[F2(3)This section shall have effect in relation to Wales—*

*(a)as if any reference to a council were a reference to a principal council; and*

*(b)as if any reference to a county were a reference to a principal area.]"*

**NODER: dylai pob perchennog toiledau fod yn ymwybodol y bydd y data a gesglir dan y strategaeth hon yn ddata agored. Mae hynny'n unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddata agored, a amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru.**

**Gofynion technegol**

Er mwyn i'r broses hon weithio, mae'n hanfodol bod pob awdurdod lleol yn glynu wrth strwythur data cyson wrth ddarparu eu data ar ffurf data agored. Caiff y set ddata y dylid ei chasglu ar gyfer pob cyfleuster toiledau a nodwyd ei hegluro yn y tabl isod. Dylech nodi nad yw'r sylwadau yn rhan o'r set ddata a'u bod wedi'u cynnwys at ddibenion esboniadol yn unig.

Dylech nodi bod yn RHAID i'r testun ar gyfer pob maes sy'n cynnwys disgrifiad gael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel meysydd ar wahân. Y rheswm am hynny yw bod cyfleuster mapio Lle yn creu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o'r mapiau.

Rhaid i'r set ddata gyflawn gael ei chyhoeddi o leiaf mewn fformat CSV, ond gellir defnyddio fformatau eraill megis KML neu JSON hefyd ochr yn ochr â CSV. Dylai'r fformat CSV (ac unrhyw fformatau eraill) fod ar gael ar wefan yr awdurdod lleol, y tu ôl i ddolen gyswllt URL ar wahân a hysbysebir gan yr awdurdod. Bydd hynny'n galluogi systemau mapio Llywodraeth Cymru i lyncu'r set ddata yn awtomatig o bob awdurdod lleol. Dylai pob awdurdod lleol ddiweddaru'n gyson y setiau data sydd y tu ôl i'r dolenni cyswllt URL hyn fel bod camau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i ddiweddaru data'n gallu elwa o unrhyw ddiweddariadau. Yn ddelfrydol ni ddylai'r dolenni cyswllt URL newid ar ôl i ddata gael ei osod y tu ôl iddynt. Fodd bynnag, os bydd yn angenrheidiol eu newid, dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith.

**Nodiadau ynghylch y set ddata**

- Os yw rhesi wedi'u lliwio yn llwyd, <u>nid</u> oes yn rhaid darparu'r data.

- Dylid cwblhau un cofnod ar gyfer pob cyfeirnod lleoliad. Bydd llenwi pob maes yn gywir yn sicrhau bod yr holl wahanol fathau o gyfleusterau sydd ar gael dan bob cyfeirnod lleoliad yn cael eu cofnodi.

- Mae'r tabl canlynol yn dangos y data sy'n ofynnol. **Ni ddylai'r** data gael ei fapio gan ddefnyddio'r tabl hwn fel templed. Yn hytrach, dylai gael ei osod mewn fformat CSV neu Excel gan ddefnyddio enwau'r meysydd data fel penawdau ar gyfer y colofnau. Felly, dylai'r data ar gyfer pob lleoliad gael ei gofnodi ar ffurf un llinell ar gyfer pob mangre (gweler yr adran enghreifftiol isod).

- Bydd y templed CSV sy'n cynnwys y penawdau ar gael gan fapwyr data Llywodraeth Cymru, o ofyn amdano.

  StrategaethToiledauLleol@llyw.cymru

| **Cyfeirnod yr awdurdod lleol** | **Enw'r lleoliad – yn Saesneg** | **Enw'r lleoliad – yn Gymraeg** | **Cyfeirnod UPRN** | **Lleoliad yn ôl Grid Cenedlaethol Prydain – cyfesuryn x** |
|---|---|---|---|---|
| **W060000XX** | **High Street, Town** | **Y Stryd Fawr, Y Dre** | **XXX** | **XXX** |

## Y set ddata sydd i'w chasglu ar gyfer lleoliad pob toiled a nodwyd

| Enw'r maes data | Y fformat gofynnol | Sylw |
|---|---|---|
| Cyfeirnod yr awdurdod lleol | W060000XX | Gweler y rhestr ar wahân. |
| Enw'r lleoliad – yn Saesneg | | Os yw'r cyfleuster y tu mewn i siop, er enghraifft. |
| Enw'r lleoliad – yn Gymraeg | | |
| Cyfeirnod UPRN | | Dyma gyfeirnod unigryw a bennir ar gyfer pob mangre. Bydd ar gael gan Geidwad Rhestr Tir ac Eiddo Lleol eich awdurdod lleol. |
| Lleoliad yn ôl Grid Cenedlaethol Prydain – cyfesuryn x | | I'r metr agosaf<br>Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon drwy Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol mewnol neu drwy fapiau papur yr Arolwg Ordnans. Nid oes angen y wybodaeth hon os gellir darparu'r cyfeirnod UPRN. |
| Lleoliad yn ôl Grid Cenedlaethol Prydain – cyfesuryn y | | I'r metr agosaf<br>Nid oes angen y wybodaeth hon os gellir darparu'r cyfeirnod UPRN. |
| Cod post | | Dylid ei ddarparu er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i ddod o hyd i safle'r toiledau. |
| Nodiadau ynghylch mynediad – yn Saesneg | Testun: dim mwy na 255 o nodau | Dylent gynnwys unrhyw wybodaeth am fynediad y gallai fod ei hangen ar ddefnyddiwr – ee "ar y llawr cyntaf"; "cyfleusterau tanddaear, grisiau er mwyn cael mynediad, cyfleuster i bobl anabl ar wyneb y ddaear, gofynnwch am allwedd yn y caffi".<br>Rhaid darparu gwybodaeth yn y ddwy iaith, mewn meysydd ar wahân. |
| Nodiadau ynghylch mynediad – yn Gymraeg | Testun: dim mwy na 255 o nodau | |
| Tâl mynediad | | Os oes tâl mynediad, cofnodwch y swm yn unig yn y gell. |
| Amseroedd agor | Dylid defnyddio fformat cloc 24 awr –<br>00.00 | Os yw'r amseroedd agor yr un fath o ddydd Llun i ddydd Gwener, dim ond ar gyfer dydd Llun y mae angen darparu'r wybodaeth. |
| Dydd Llun – agor | 00.00 | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun – cau | 00.00 | |
| Dydd Mawrth – agor | 00.00 | |
| Dydd Mawrth – cau | 00.00 | |
| Dydd Mercher – agor | 00.00 | |
| Dydd Mercher – cau | 00.00 | |
| Dydd Iau – agor | 00.00 | |
| Dydd Iau – cau | 00.00 | |
| Dydd Gwener – agor | 00.00 | |
| Dydd Gwener – cau | 00.00 | |
| Dydd Sadwrn – agor | 00.00 | |
| Dydd Sadwrn – cau | 00.00 | |
| Dydd Sul – agor | 00.00 | |
| Dydd Sul – cau | 00.00 | |
| Ar gau yn ystod tymhorau tawel a gwyliau cyhoeddus? | ✓ = 1<br>× = 0 | Mae’r cwestiynau ynghylch tymhorau tawel yn golygu bod modd cofnodi amrywiadau tymhorol mewn amseroedd agor. Dylid cofnodi cyn lleied ag sy’n bosibl o destun i ddiffinio’r tymor tawel, ee “Medi-Mai’; “ar gau yn ystod tymhorau ysgol”.<br><br>Rhaid darparu testun yn y ddwy iaith ar gyfer pob maes testun a lenwir.<br><br>Caiff yr holl wyliau cyhoeddus eu rhestru ar wahân er mwyn cael ateb cadarnhaol (✓)/negyddol (×) fel bod modd cofnodi amrywiadau tymhorol a phatrwm amseroedd agor gwahanol fathau o fangreoedd. Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y fersiwn Gymraeg a’r fersiwn Saesneg o’r map Lle, dylid cofnodi 1 ar gyfer ateb cadarnhaol a 0 ar gyfer ateb negyddol.<br><br>Rhaid nodi 1 neu 0 ar gyfer pob maes. Peidiwch â gadael unrhyw feysydd yn wag. |
| A oes llai o wasanaethau ar gael yn ystod tymhorau tawel? | 1/0 | |
| Beth yw tymor tawel (yn Saesneg)? | Testun: dim mwy na 255 o nodau | |
| Beth yw tymor tawel (yn Gymraeg)? | Testun: dim mwy na 255 o nodau | |
| Ar gau ar ddydd Nadolig | 1/0 | |
| Ar gau ar Ŵyl San Steffan | 1/0 | |
| Ar gau ar Ddydd Calan | 1/0 | |
| Ar gau ar Ŵyl Banc Calan Mai | 1/0 | |
| Ar gau ar Ddydd Gwener y Groglith | 1/0 | |
| Ar gau ar Ddydd Sul y Pasg | 1/0 | |
| Ar gau ar Ddydd Llun y Pasg | 1/0 | |
| Ar gau ar Ŵyl Banc y Gwanwyn | 1/0 | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ar gau ar Ŵyl Banc Mis Awst** | **1/0** | |
| **Cyfleusterau ar gael** | **✓ = 1**<br>**✗ = 0** | **Atebion cadarnhaol/negyddol fel o’r blaen. Rhaid nodi 1 neu 0 ar gyfer pob maes. Peidiwch â gadael unrhyw feysydd yn wag.** |
| **Dynion yn unig** | **1/0** | **Hy at ddefnydd y rhyw ddynodedig yn unig. Felly, byddai pâr traddodiadol o gyfleusterau addas i ddynion/addas i fenywod yn cael ei gofnodi fel Dynion yn unig a Menywod yn unig dan yr un cyfeirnod.** |
| **Menywod yn unig** | **1/0** | |
| **Addas i bawb** | **1/0** | **Hy ddim yn doiledau a farciwyd i’w defnyddio gan ddynion yn unig neu gan fenywod yn unig.** |
| **Cyfleuster newid ar gyfer babanod – mewn toiled i ddynion yn unig** | **1/0** | **Mae’n nodi ble mae’r cyfleuster newid ar gyfer babanod – hy mewn toiled i fenywod yn unig; mewn ystafell ar wahân; yn y cyfleuster i bobl anabl.** |
| **Cyfleuster newid ar gyfer babanod – mewn toiled i fenywod yn unig** | **1/0** | |
| **Cyfleuster newid ar gyfer babanod – mewn toiled addas i bawb** | **1/0** | |
| **Cyfleuster newid ar gyfer babanod – mewn ystafell ar wahân i’r toiledau** | **1/0** | |
| **Cyfleuster newid ar gyfer babanod – mewn toiled i bobl anabl** | **1/0** | |
| **Toiled i bobl anabl – mynediad agored – dynion yn unig** | **1/0** | **Hy nid oes yn rhaid i’r defnyddiwr gael allwedd RADAR.** |
| **Toiled i bobl anabl – mynediad agored – menywod yn unig** | **1/0** | |
| **Toiled i bobl anabl – mynediad agored – addas i bawb** | **1/0** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Toiled i bobl anabl – RADAR – dynion yn unig** | **1/0** | **Hy deiliaid allwedd RADAR yn unig.** |
| **Toiled i bobl anabl – RADAR – menywod yn unig** | **1/0** | |
| **Toiled i bobl anabl – RADAR – addas i bawb** | **1/0** | |
| **Man newid** | **1/0** | **Toiledau yw'r rhain sy'n cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer oedolion, teclynnau codi ac ati. Maent at ddefnydd pobl sydd ag anableddau dwys, a'u gofalwyr.** |

## Rhestr o godau cyfeirnodau'r awdurdodau lleol

| Code | Saesneg | Cymraeg |
|---|---|---|
| W06000001 | Isle of Anglesey | **Ynys Môn** |
| W06000002 | Gwynedd | **Gwynedd** |
| W06000003 | Conwy | **Conwy** |
| W06000004 | Denbighshire | **Sir Ddinbych** |
| W06000005 | Flintshire | **Sir y Fflint** |
| W06000006 | Wrexham | **Wrecsam** |
| W06000008 | Ceredigion | **Ceredigion** |
| W06000009 | Pembrokeshire | **Sir Benfro** |
| W06000010 | Carmarthenshire | **Sir Gaerfyrddin** |
| W06000011 | Swansea | **Abertawe** |
| W06000012 | Neath Port Talbot | **Castell-nedd Port Talbot** |
| W06000013 | Bridgend | **Pen-y-bont ar Ogwr** |
| W06000014 | Vale of Glamorgan | **Bro Morgannwg** |
| W06000015 | Cardiff | **Caerdydd** |
| W06000016 | Rhondda Cynon Taf | **Rhondda Cynon Taf** |
| W06000018 | Caerphilly | **Caerffili** |
| W06000019 | Blaenau Gwent | **Blaenau Gwent** |
| W06000020 | Torfaen | **Tor-faen** |
| W06000021 | Monmouthshire | **Sir Fynwy** |
| W06000022 | Newport | **Casnewydd** |
| W06000023 | Powys | **Powys** |
| W06000024 | Merthyr Tydfil | **Merthyr Tudful** |